monmouthshire
sir fynwy

**HYSBYSEB SWYDD** In order

**TEITL SWYDD:** Gweithiwr Cymdeithasol - Gwasanaethau Integredig

Parhaol

**CYFEIRNOD SWYDD: Need new Post ID**

**GRADD:** BAND 1 SCP 37 – SCP 41 (£13,846-£35,662)

**ORIAU:** 37 yr wythnos

**LLEOLIAD:** Cas-gwent, a all newid yn y dyfodol os oes angen i leoliad y gwasanaeth newid. Ni fyddir yn talu costau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

**ASESIAD SGILIAU YN Y GYMRAEG:**
(ch) Nid oes angen sgiliau yn y Gymraeg

**DIBEN Y SWYDD:**

Mae Tîm Gwasanaeth Integredig De Sir Fynwy yn gweithio ar draws de'r Sir i alluogi pobl i barhau'n annibynnol yn eu cartrefi eu hun drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol seiliedig yn y gymuned. Y nod yw osgoi derbyniadau diangen i ysbytai a lleoliadau preswyl.

Mae'r cyfle cyffrous yma wedi codi i weithiwr proffesiynol gyda chymhelliant uchel, profiadol a blaengar ymuno â Tîm Gwasanaeth Integredig De Sir Fynwy yn seiliedig yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent.

Mae'r swydd yn cynnig cyfle ardderchog i weithio o fewn tîm deinamig amlddisgyblaeth a gydag ystod o ddarparwyr a sefydliadau partner i ddatblygu datrysiadau cymunedol i ddarparu cefnogaeth i oedolion agored i niwed. Mae'r swydd hefyd yn gyfle ardderchog i ddatblygu sgiliau rheoli llwyth achos. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg, gyda chymhelliant uchel, blaengar a brwdfrydig gyda'r gallu i gyflwyno gwasanaeth unigol ansawdd uchel.

**Os ydych angen mwy o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch â:**

**Rheolwyr Recriwtio Annette Brady Rheolwr Tîm Gwasanaeth Integredig De Sir Fynwy Ffôn: 01291-636531**
**Dyddiad Cau: 12 canol-dydd ar () 2016**

**Dylid nodi na allwn dderbyn CVs**

**Gellir llenwi ffurflenni cais ar-lein neu eu lawrlwytho drwy:**
**http://www.monmouthshire.gov.uk/how-to-apply-for-council-jobs**

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac ni chaiff cais a gyflwynir yn y Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Ar ôl eu llenwi, dylid dychwelyd ffurflenni cais papur i'r cyfeiriad dilynol:-

Gwasanaethau Pobl, Cyngor Sir Fynwy, Blwch SP 106, Cil-y-coed, NP26 9AN

Caiff apwyntiad i'r swydd ei eithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr a chynhelir Gwiriad Datgelu Estynedig.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned.

Mae'r holl swyddi yn agored ar gyfer swydd-rannu os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Gweithle Dim Ysmygu.

**PROFFIL SWYDD**

**TEITL SWYDD:** Gweithiwr Cymdeithasol - Gwasanaethau Integredig

Parhaol

**CYFEIRNOD SWYDD:**

**GRADD:** BAND I SCP 37 - SCP 41 (£31,846-£35,66)

**ORIAU:** 37 yr wythnos. (Gall fod angen i ddeiliad y swydd weithio ar sail rota i gynnwys penwythnosau a gwyliau banc gan dderbyn taliadau perthnasol yn unol â pholisi taliadau ychwanegol Cyngor Sir Fynwy)

**LLEOLIAD:** Cas-gwent, a all newid yn y dyfodol os oes angen i leoliad y gwasanaeth newid. Ni fyddir yn talu costau adleoli neu ymyrryd os yw hyn yn digwydd.

**CYFRIFOL I:** **Rheolwr Tîm**

**ASESIAD SGILIAU YN Y GYMRAEG:**
(ch) Nid oes angen sgiliau yn y Gymraeg

**Gwasanaeth Integredig De Sir Fynwy.** Rydym yn dîm integredig gyda staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio wrth ochr ei gilydd ac yn cael eu rheoli drwy gwasanaethau cymdeithasol. Mae gennym gyfoeth o brofiad rhyngom yr ydym yn fodlon ei rannu gyda'n gilydd ac mae ein gwaith yn angerddol bwysig i ni. Ffactor pwysig yw bod 'ffiniau swydd' wedi dod yn amwys gan alluogi mewnbwn gwybodaeth neu farn holl aelodau'r tîm gan arwain at y datrysiadau mwyaf addas ar gyfer y bobl hynny a gefnogwn.

**Ein Diben:-**
Rydym yn darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig i sicrhau y gall pobl gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain. Mae hyn yn golygu bod angen trawsnewid y ffordd y gweithiwn yn unigol a hefyd yn broffesiynol ac o fewn cyd-destun gwasanaeth.

**Diben y Swydd:-**
Hwyluso a hyrwyddo cynllunio, cydlynu a chyfathrebu effeithlon ar gyfer unigolion sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth.

Hyrwyddo cysyniad cynllunio rhyddhau da drwy'r gweithio integredig a sefydlwyd o fewn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent.

Cydlynu gyda'r person, teulu a gofalwyr drwy gydol y broses cynllunio rhyddhau.

**Eich cyfrifoldebau yw:**

**Gweithredol**

- Darparu gwybodaeth a chyngor hygyrch drwy wasanaeth ymateb ar unwaith.
- Sicrhau y gweithredir canllawiau mynediad teg i bob dinesydd fel y cytunwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Gweithio gyda phobl i'w helpu i ddynodi risgiau i'w hannibyniaeth yn defnyddio ystod o ddulliau.
- Gweithio wrth ochr pobl i ymchwilio opsiynau a fyddai'n eu cefnogi i fyw mor annibynnol ag sydd modd yn eu cymunedau.
- Gweithio gyda phobl i helpu datblygu datrysiadau a chynlluniau cymorth personol.
- Rhoi'r wybodaeth i bobl y maent ei hangen i wneud dewisiadau am opsiynau cyllid.
- Cynnal asesiadau ariannol gyda phobl yn unol â fframweithiau lleol a chenedlaethol.
- Cynnal cofnodion ariannol cywir a chytuno ar unrhyw wariant gyda'r person sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am gyllideb.
- Gweithio gyda chymunedau, ystod o ddarparwyr a sefydliadau partner i ddatblygu datrysiadau seiliedig yn y gymuned.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill i sicrhau darpariaeth gwasanaethau ansawdd da.
- Gweithredu fel cydlynydd achos mewn sefyllfaoedd addas.
- Dirprwyo a goruchwylio ystod o swyddogaethau a wneir gan weithwyr cymorth.
- Cadw cofnodion rheolaidd a chywir o waith achos yn unol â gweithdrefnau'r adran.
- Darparu asesiadau arbenigol gwaith cymdeithasol fel rhan o asesiadau cynhwysfawr e.e. Asesiadau Gofal Iechyd Parhaus.
- Paratoi ar gyfer a chyfrannu at gynhyrchu adroddiadau ar gyfer cynadleddau achos, cyfarfodydd Amddiffyn Oedolion, grŵp Sicrwydd Ansawdd ac yn y blaen.

- Cynnal ymchwiliadau heb fod yn droseddol dan ganllawiau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

- Cymryd rhan wrth ymchwilio cwynion pobl yn unol â gweithdrefnau Cyngor Sir Fynwy.

## Datblygu Unigolion a Gwasanaethau

- Cymryd cyfrifoldeb i gadw gwybodaeth gyfredol o arfer gorau a datblygiadau ym mhob maes integreiddio yn unol â gofynion cyrff proffesiynol perthnasol.

- Dilyn hyfforddiant perthnasol er mwyn sicrhau y cedwir safon broffesiynol o ymarfer a datblygu sgiliau priodol i gyfoethogi'r gwasanaeth integredig.

- Cyfrannu at ddatblygu aelodau eraill o'r gwasanaeth integredig.

- Dilyn hyfforddiant asesu ymarfer a hwyluso dysgu myfyrwyr gwaith cymdeithasol o fewn y tîm.

- Cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau fel eu bod yn ymateb i'r newid yn anghenion y boblogaeth darged.

- Hysbysu eich rheolwr am faterion gwasanaeth a all fod â goblygiadau i'r adran neu'n sy'n debygol o fod yn destun cyhoeddusrwydd p'un ai gadarnhaol neu negyddol, gan sicrhau y caiff unrhyw faterion o gonsyrn am oedolion agored i niwed eu hysbysu ar unwaith.

## Cyffredinol

- Gweithio'n hyblyg i ateb gofynion y gwasanaeth.

- Cynnal arferion gwaith diogel ar gyfer eich hunan ac eraill yn unol â datganiad polisi'r awdurdod ar iechyd a diogelwch yn y gwaith.

- Cefnogi a gweithredu egwyddorion ac ymarfer cyfle cyfartal fel y'i nodir ym mholisi'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

**Beth arall sydd angen i chi wybod ... Gwerthoedd Sir Fynwy yw ...**

| | |
|---|---|
| Bod yn agored: | Anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth. |
| Bod yn deg: | Anelwn ddarparu dewis, cyfleoedd a phrofiadau a teg a dod yn sefydliad sydd wedi adeiladu ar barch pobl at ei gilydd. |
| Bod yn hyblyg: | Anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol. |

| | |
|---|---|
| Gwaith tîm: | Anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau. |

A bydd y rôl yma'n gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni hyn.

**Yn ogystal:**

Mae pawb a gyflogir yn gyfrifol am sicrhau eu bod bob amser yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae'r awdurdod yn gweithredu Polisi Gweithle Di-fwg y mae'n rhaid i'r holl gyflogeion gydymffurfio ag ef.

# Manyleb Person

**Sut fyddwn ni'n gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus byddwch wedi dangos:-**

| GOFYNION | PWYSIAD | SUT Y PROFWYD |
|---|---|---|
| **1. ADDYSG/CYMWYSTERAU/GWYBODAETH** | | |
| 1.1 Cymhwyster proffesiynol gwaith cymdeithasol | Uchel | Ffurflen Gais |
| 1.2 Dealltwriaeth o egwyddorion allweddol darpariaeth gyfredol a newydd ar gyfer oedolion mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 1.3 Gwybodaeth o egwyddorion integreiddiad | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **2 PROFIAD** | | |
| 2.1 Y gallu i gynrychioli a gweithredu'r gwerthoedd sy'n sylfaen i waith cymdeithasol | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 2.2 Tystiolaeth bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ganolog i'ch gwaith | Uchel | Ffurflen Gais |
| 2.3 Tystiolaeth o weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gydag ystod o anghenion | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 2.4 Gallu i gefnogi pobl i ganfod datrysiadau mewn ffordd greadigol a hyblyg | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 2.5 Tystiolaeth o allu i weithio mewn partneriaeth. | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 2.6 Tystiolaeth o weithio i ganllawiau Diogelu Oedolion Agored i Niwed. | Canolig | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **3. GALLUOEDD A SGILIAU** | | |
| 3.1 Gallu i wrando i ddeall | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 3.2 Gallu i adnabod risgiau i annibyniaeth | Uchel | Cyfweliae |
| 3.3 Gallu i ddefnyddio neu barodrwydd i ddatblygu dull hyfforddi gyda phobl | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 3.4 Gallu i ymgysylltu gyda phobl i ganfod datrysiadau | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 3.5 Gallu i ymgysylltu gyda chymunedau | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.6 | Gallu i ymgysylltu gyda phobl i gael sgyrsiau anodd | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 3.7 | Gallu i asesu a thrin risg mewn partneriaeth gydag eraill | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 3.8 | Gallu i flaenoriaethu'n effeithlon pan dan bwysau | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| 3.9 | Gallu i gyfathrebu'n effeithlon pan dan bwysau | Uchel | Ffurflen Gais |
| 3.10 | Gallu i gyfathrebu'n effeithlon yn llafar ac mewn ysgrifen | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **4.** | **NODWEDDION PERSONOL** | | |
| 4.1 | Credu mewn gwerth ymrymuso | Uchel | Cyfweliad |
| 4.2 | Hyblygrwydd, cymhelliant a brwdfrydedd yn eich dull gweithio | Uchel | Cyfweliad |
| 4.3 | Gallu i feddwl yn greadigol | Uchel | Cyfweliad |
| **5.** | **AMGYLCHIADAU** | | |
| 5.1 | Meddu ar drwydded yrru lawn a bod â mynediad i gerbyd fydd yn derbyn lwfans milltiroedd a gytunwyd Cyngor Sir Fynwy | Uchel | Ffurflen Gais |
| 5.2 | Wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru | Uchel | Ffurflen Gais Cyfweliad |
| **6.** | **CYFLE CYFARTAL** | | |
| 6.1 | Gallu i ddangos dealltwriaeth glir o egwyddorion ac ymarfer cyfle cyfartal ac ymrwymiad i ymarfer gwrth-wahaniaethol | Uchel | Ffurflen Gais a Chyfweliad |

**Os ydych angen gwybodaeth bellach am y swydd hon, cysylltwch os gwelwch yn dda ag: Annette Brady Rheolwr Tîm Gwasanaeth Integredig De Sir Fynwy Ffôn: 01291-636531**

**Dyddiad Cau: 12 canol-dydd (Insert Date) 2016**